*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

# Coleg Cambria

**Mai 2023**

## Y canfyddiadau allweddol

### Beirniadaethau QAA am Goleg Cambria

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Cambria:

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

### Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yng Ngholeg Cambria sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academaidd yn ddibynadwy a/neu'n gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Goleg Cambria:

- barhau i ddatblygu ei brosesau sicrhau ansawdd mewnol fel bod adolygiadau rheolaidd o'i arferion mewn perthynas â safonau ac ansawdd yn gallu ysgogi rhagor o ddatblygiad a gwelliant (Safonau).

### Y gwelliannau penodedig

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw **welliannau penodedig**.

## Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 24 a 55 Mai 2023 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Ms Diane Rainsbury
- Miss Elizabeth Shackels
- Dr Bradley Woolridge (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

## Ynghylch Coleg Cambria

Mae Coleg Cambria (y Coleg) yn goleg addysg bellach mawr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n gweithredu ar draws pum campws yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Sefydlwyd y Coleg yn 2013 drwy gyfuno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl. Mae'r Coleg yn cynnig addysg bellach, dysgu i oedolion, prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith, rhaglenni cyswllt ysgolion, ac addysg uwch. Dim ond y rhaglenni addysg uwch sy'n perthyn i gwmpas yr adolygiad hwn.

Mae graddau sylfaen a graddau baglor y Coleg wedi eu hetholfreinio iddo drwy bartneriaethau gyda Phrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol John Moores Lerpwl, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, a Phrifysgol Caer. Mae'r rhaglenni a ddarperir ar y cyd â Phrifysgol Caer wrthi'n cael eu 'haddysgu allan', a disgwylir i'r broses gael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae'r Coleg hefyd yn darparu rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson. Ar adeg yr adolygiad, roedd 393 o fyfyrwyr yn astudio ar raglenni ar etholfraint gan brifysgolion a rhaglenni Cenedlaethol Uwch, ac mae 117 o fyfyrwyr eraill yn astudio ar raglenni nad ydynt yn rhagnodedig (dyfarniadau a ddyfernir gan gyrff dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual).

Mae gan Strategaeth Addysg Uwch y Coleg bum prif linyn: sefydlu a chadw cysylltiadau â phartneriaid allweddol; cwricwlwm hyblyg sydd â ffocws ar yrfaoedd; bod yn ddewis ddarparwr yn y rhanbarth; ethos addysg uwch; a chydweithio'n gydlynol.

Dyma'r ail Adolygiad Ansawdd Porth a gafodd y Coleg; cafwyd yr adolygiad cyntaf yn 2019.

# Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

## *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)

1 Nid oes gan Goleg Cambria (y Coleg) bwerau dyfarnu graddau. Mae rhaglenni'n cael eu datblygu mewn cydweithrediad â phrifysgolion partner, Pearson neu gyrff dyfarnu eraill.

2 Am mai prifysgolion partner y Coleg sy'n gyfrifol am ddilysu'r rhaglenni, mae'r Coleg yn cydymffurfio â'r Datganiadau o Nodweddion ar gyfer Graddau Sylfaen ac Addysg Uwch mewn Prentisiaethau a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc a gyhoeddir gan QAA sy'n berthnasol iddo. Mae cytundebau partneriaeth a rhestrau gwirio o gyfrifoldebau yn eu lle.

3 Defnyddiwyd cynghorwyr academaidd annibynnol i roi sicrwydd bod y safonau cenedlaethol wedi eu cyrraedd wrth ddatblygu rhaglenni.

4 Defnyddir Cylch Ansawdd y Coleg i gefnogi'r gwaith o reoli ei ddarpariaeth addysg uwch, ac mae'r cylch yn symleiddio prosesau'r Coleg drwy eu halinio â rheoliadau ei bartneriaid. Yn ogystal, mae'r Coleg wedi creu swyddi rheolwyr addysg uwch yn ddiweddar - sy'n cynnwys Rheolwr Cydymffurfiad Addysg Uwch, Gweinyddwyr Addysg Uwch, Is-Bennaeth Astudiaethau Academaidd, a Deon Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch - i reoli prosesau sicrhau ansawdd pob un o'i bartneriaid ac i gefnogi staff y Coleg i gydymffurfio â hwy.

5 Mae'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch yn y Coleg yn archwilio canlyniadau'r prosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys canlyniadau arolygon myfyrwyr, adroddiadau arholwyr allanol, adroddiadau monitro blynyddol, cyfraddau cwblhau a chanlyniadau cyrhaeddiad, cynlluniau gwelliant parhaus a gwerthusiadau o fodiwlau. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn aelodau o'r grŵp hwn.

6 Mae gan y Coleg brosesau mewnol i safoni gwaith a asesir sy'n cyfateb ac yn mynd law yn llaw â phrosesau ei brifysgolion partner. Penodir arholwyr allanol gan brifysgolion partner y Coleg. Mae'r arholwyr allanol yn rhoi adroddiadau blynyddol i'r brifysgol bartner berthnasol sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda'r Coleg. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi rhagor o sicrwydd bod safonau wedi eu cyrraedd a'u bod yn adlewyrchu safonau cenedlaethol.

7 Mewn perthynas â monitro blynyddol, mae timau'r rhaglenni'n cwblhau Adroddiad Monitro Blynyddol y Rhaglen, neu ddogfen gyfatebol y brifysgol bartner, ynghyd â Chynllun Gwelliant Parhaus. Cymeradwyir y rhain gan y Cyfarwyddwr Cwricwlwm perthnasol cyn eu cyflwyno i'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch. Mae'r timau rheoli yn y Gyfarwyddiaeth honno'n monitro'r cynnydd yn erbyn Cynlluniau Gwelliant Parhaus, o dan oruchwyliaeth y Deon Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch.

## *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)

8 Mae'r Coleg yn cyfateb yn gywir â'r golofn addysg uwch yn y fframwaith-meta FfCChC, ac mae'n glynu at bob un o'r wyth egwyddor lefel uwch wrth ddatblygu rhaglenni addysg uwch. Mae'r safonau trothwy ar gyfer cymwysterau a ddyfernir ym maes addysg uwch yn gyson â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt. Mae'r dull o ddefnyddio fframwaith addysg uwch a fabwysiadwyd gan y Coleg yn sicrhau bod ei arferion yn alinio â rheoliadau academaidd ei brifysgolion partner a'i gyrff dyfarnu.

## Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

9 Nid oes gan y Coleg bwerau dyfarnu graddau, ond mae ganddo gytundebau partneriaeth gyda chwe chorff dyfarnu graddau ac un sefydliad dyfarnu. Mae'r Coleg yn deall ei gyfrifoldebau ei hun yn glir - er enghraifft, wrth gynllunio ac asesu rhaglenni.

10 Mae'r Coleg yn cydymffurfio â'r Datganiadau o Nodweddion ar gyfer Graddau Sylfaen ac Addysg Uwch mewn Prentisiaethau a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc a gyhoeddir gan QAA sy'n berthnasol iddo; caiff hyn ei fonitro drwy brosesau dilysu a chymeradwyo rhaglenni ei brifysgolion partner / gyrff dyfarnu.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

11 Mae partneriaid addysg uwch y Coleg yn adolygu'r rhaglenni'n flynyddol drwy'r broses fonitro flynyddol ac yn eu hadolygu'n fanylach hefyd drwy brosesau ail-ddilysu ac adolygu cyfnodol. Ar gyfer darpariaeth Pearson, mae'r Coleg wedi datblygu canllaw i'w staff sy'n nodi'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer darparu rhaglenni Cenedlaethol Uwch.

12 Penodir arholwyr allanol gan ei bartneriaid addysg uwch neu ei gyrff dyfarnu. Mae'r arholwyr allanol yn gwneud ymweliadau monitro blynyddol â'r Coleg ac yn samplu, drwy blatfformau ar-lein, bapurau asesu wedi eu marcio. Gwahoddir arholwyr allanol i gymryd rhan mewn byrddau arholi ac mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod safonau wedi eu cyrraedd a'u bod yn gymaradwy â rhaglenni tebyg mewn sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

13 Mae gan y Coleg broses fewnol i gymeradwyo darpariaeth addysg uwch newydd sy'n cychwyn gyda thrafodaeth yn y maes Cyfarwyddiaeth, mewn ymateb i alw sy'n dod i'r amlwg gan fyfyrwyr neu gais gan gyflogwr neu grŵp o gyflogwyr. Os cymeradwyir y ddarpariaeth gan Bennaeth Cynorthwyol ac Is-Bennaeth y maes Cyfarwyddiaeth hwnnw, cymerir y cais yn ei flaen at sylw'r Grŵp Strategaeth a Phrif Ddangosyddion Perfformiad Addysg Uwch. Rhaid i bob rhaglen gael ei chymeradwyo gan y Grŵp Strategaeth a Phrif Ddangosyddion Perfformiad Addysg Uwch. Mae gan y Coleg drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy. Mae'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch yn archwilio canlyniadau'r prosesau sicrhau ansawdd - er enghraifft, canlyniadau arolygon myfyrwyr, adroddiadau arholwyr allanol, adroddiadau monitro blynyddol, cyfraddau cwblhau a chanlyniadau cyrhaeddiad, cynlluniau gwelliant parhaus a gwerthusiadau o fodiwlau.
Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn aelodau o'r grŵp hwn.

14 Fel y nodwyd ym mharagraff 4, mae'r Coleg wedi creu nifer o swyddi newydd mewn rheoli addysg uwch i oruchwylio'r gwaith o reoli ei ddarpariaeth addysg uwch ar draws nifer

o'i gampysau. Lluniwyd y swyddi hyn yn benodol i reoli prosesau a threfnau sicrhau ansawdd pob un o'i bartneriaid ac i gefnogi staff y Coleg i gydymffurfio â hwy.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

15 Mae gan y Coleg brosesau mewnol priodol i safoni gwaith a asesir (gwelwch baragraff 6) a threfniadau priodol ar gyfer monitro a goruchwylio'n flynyddol (gwelwch baragraff 7). Mae adroddiadau arholwyr allanol yn rhoi rhagor o sicrwydd bod safonau wedi eu cyrraedd a'u bod yn adlewyrchu safonau cenedlaethol.

16 Mae gan y Coleg Is-Bennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n gyfrifol hefyd am ymgysylltu â chyflogwyr. Mae rheolwyr y Coleg yn ymgysylltu'n gadarnhaol â chyflogwyr i hyrwyddo profiad i bob myfyriwr o'r diwydiant perthnasol. Mae ymgysylltiad â chyflogwyr wedi ei sefydlu'n dda yn y Coleg ac yn gweithio'n effeithiol.

17 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad fod y Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

18 Mae'r Cylch Ansawdd Addysg Uwch yn disgrifio'n fanwl sut y bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau'r Coleg a sut y gallant gyfrannu drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r cylch hwn yn cael ei adolygu a'i addasu'n flynyddol gyda chytundeb y Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch.

19 Mae'r Coleg yn defnyddio fframwaith i symleiddio ei bolisïau a'i weithdrefnau mewnol er mwyn alinio â rheoliadau ei brifysgolion partner. Yna cyfeirir y staff a'r myfyrwyr at bolisi cyfatebol y brifysgol bartner berthnasol. Trwy ddatblygu ei brosesau ym maes addysg uwch, mae'r Coleg yn cydnabod ei fod ar daith tuag at gyflawni gwell aliniad a pherchnogaeth ar ei ddarpariaeth addysg uwch. Mae'r tîm adolygu o'r farn **y byddai'n fuddiol i'r Coleg barhau i ddatblygu ei brosesau sicrhau ansawdd mewnol fel bod adolygiadau rheolaidd o'i arferion mewn perthynas â safonau ac ansawdd yn gallu ysgogi rhagor o ddatblygiad a gwelliant.**

## Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

20 Mae'r Coleg yn gweithio gyda chwe chorff dyfarnu ac un sefydliad dyfarnu, sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd y dyfarniadau. Mae'r Coleg yn cydymffurfio â'r pwyntiau cyfeirio sy'n berthnasol iddo ar gyfer sicrhau bod y safonau trothwy'n gyson â'r fframweithiau cenedlaethol; caiff hyn ei fonitro drwy brosesau dilysu a chymeradwyo rhaglenni ei brifysgolion partner / gyrff dyfarnu. Mae gan y Coleg broses fewnol i gymeradwyo darpariaeth addysg uwch newydd. Mae gan y Coleg drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau'r dyfarniadau y mae'n eu cynnig yn sicr ac yn ddibynadwy. Mae gan y Coleg brosesau mewnol priodol i safoni gwaith a asesir a threfniadau priodol ar gyfer monitro a goruchwylio'n flynyddol i sicrhau bod ei brosesau asesu a dosbarthu'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn rhoi rhagor o sicrwydd bod safonau wedi eu cyrraedd a'u bod yn adlewyrchu safonau cenedlaethol. Canfu'r tîm adolygu un maes sydd angen ei ddatblygu mewn perthynas â'r Arferion Cyffredin o adolygu'n rheolaidd yr Arferion Craidd hynny sy'n ymwneud â safonau, er mwyn helpu'r Coleg i ysgogi rhagor o ddatblygiad a gwelliant.

21 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Coleg yn effeithiol o ran cyflawni'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin a'i fod yn cynnal safonau'r dyfarniadau, ac felly mae'n bodloni'r Disgwyliadau o ran safonau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd.

## Y feirniadaeth

22 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr. Galluogodd y cyfarfodydd a'r dogfennau i'r tîm adolygu weld tystiolaeth gadarn sy'n dangos bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (*y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*) a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd; a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

23 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU.

# Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr

## Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

24 Amlinellodd y Coleg y systemau derbyn yn ei ddogfen hunanwerthusiad a chyflwynodd ddogfennau ategol oedd yn dangos bod y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol wedi eu bodloni.

25 Mewn trafodaethau yn ystod y cyfarfod â myfyrwyr, tynnwyd sylw at rai problemau a gafwyd yn y broses ymgeisio (e.e. problemau gyda phrosesau ymgeisio sydd wedi eu dyblygu a phroblemau gyda chyfathrebu â'r brifysgol). Roedd y staff yn ymwybodol o'r problemau hyn a sicrhawyd gwelliant mewn rhai meysydd ynghyd â chynlluniau pellach i fynd i'r afael â'r problemau wrth symud ymlaen. Llwyddodd y trafodaethau hyn i dawelu meddwl y tîm adolygu bod newidiadau'n digwydd i wella'r broses hon, megis y cynlluniau i ddatblygu system UCAS benodol.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

26 Mae'r rhan fwyaf o raglenni'r Coleg wedi eu hetholfreinio iddo, ac mae'r Coleg yn cydweithio'n agos â'r corff dyfarnu perthnasol ac yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwella rhaglenni. Mae gan y Coleg gyfrifoldeb llawn am ddatblygu a darparu rhaglenni Pearson, ac mae ganddo brosesau a fframwaith manwl i gefnogi cyflawni ei gyfrifoldebau. Rhaid i bob rhaglen newydd gael ei chymeradwyo'n fewnol cyn iddi gael ei hystyried gan y corff dyfarnu. Mae tystiolaeth sy'n dangos yn glir fod y rhaglenni wedi eu darparu yn unol â gofynion cyrff dyfarnu'r Coleg. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y myfyrwyr yn fodlon iawn gydag ansawdd eu rhaglenni a'r addysgu. Roedd mwyafrif llethol y myfyrwyr yn gadarnhaol wrth ganmol ansawdd eu rhaglenni ac ymroddiad a chefnogaeth y staff addysgu.

27 Mae timau'r rhaglenni'n cyfranogi yn y gwaith o ddatblygu cwricwla a rhaglenni drwy gymryd rhan ym mhwyllgorau a phrosesau'r prifysgolion, gan gynnwys y Rhaglenni Astudio ar y Cyd. Siaradodd y staff academaidd am gydweithrediad go iawn â'u prifysgolion partner sy'n eu galluogi i gyfranogi'n llawn yn y prosesau perthnasol a'r gwaith o ddatblygu rhaglenni, ac i gynnig addasiadau ar sail arferion gweithredol, perthnasedd i'r diwydiant ac adborth gan fyfyrwyr.

28 Mae'r gwaith monitro blynyddol - drwy brosesau'r Coleg ei hun (Adroddiadau Monitro Blynyddol y Rhaglenni) a phroses gyfatebol y brifysgol berthnasol - yn effeithiol o ran cynnal rhaglenni o safon uchel a chanfod meysydd sydd angen eu datblygu.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

29 Mae'r mwyafrif o'r staff academaidd yn addysgu mewn addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r Coleg yn gyfrifol am sicrhau bod yr adnoddau addysgu'n ddigonol o ran cyfanswm eu nifer ac ehangder yr arbenigedd. Mae gan y Coleg brosesau priodol ar gyfer monitro a dyrannu adnoddau ar lefelau strategol a gweithredol fel ei gilydd, ac mae'n amlwg bod digon o adnoddau staffio ar gael bob amser i gyfateb â'r datblygiad a gafwyd ym mhoblogaeth myfyrwyr addysg uwch y Coleg a'i bortffolio o raglenni addysg uwch.

30 Mae staff newydd yn cael eu penodi gan ddefnyddio meini prawf mewnol y Coleg ei hun sy'n gofyn i'r staff fel arfer fod â chymhwyster uwch sydd o leiaf un lefel yn uwch na lefel

y cyrsiau y maent yn eu haddysgu. Mae'r gymeradwyaeth i addysgu ym maes addysg uwch yn atebol i broses gymeradwyo fewnol y Coleg ei hun, yn ogystal â gofynion y corff dyfarnu perthnasol. Yn ogystal, mae arbenigedd y staff yn cael ei ystyried a'i gadarnhau yn rhan o broses ddilysu gychwynnol y brifysgol berthnasol ac mae angen cymeradwyaeth ddilynol am unrhyw newidiadau parhaus yn y staff addysgu wrth iddyn nhw ddigwydd. Mae'r broses fonitro flynyddol yn gyfle i ystyried a nodi unrhyw ofynion am adnoddau staffio, ac roedd tystiolaeth i ddangos bod y broses hon yn gweithio'n effeithiol. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae'r adnoddau staffio ac arbenigedd y staff yn cael eu monitro gan arholwyr allanol, ac mae eu hadroddiadau'n cynnwys sylwadau cadarnhaol am yr agweddau hyn.

31 Mae'r Coleg yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad staff a gweithgareddau ysgolheigaidd. Mae cyfleoedd i'r staff ddatblygu eu harbenigedd ymhellach a chadw eu gwybodaeth yn gyfoes drwy gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau ysgolheigaidd perthnasol sy'n cynnwys cyfleoedd i ennill cymwysterau addysgu uwch ar lefelau ôl-raddedig ac ôl-raddedig a addysgir a/neu gyfleoedd diweddaru yn y diwydiant. Anogir pob aelod o'r staff i gymryd rhan yn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU - mae 23 aelod o'r staff wedi ennill statws Cymrawd yn barod ac mae chwe chais pellach yn aros am ddyfarniad. Ceir ymrwymiad gweithredol a chyfranogaeth eang gan staff mewn gwahanol grwpiau perthnasol yn y sector, megis Advance HE, digwyddiadau QAA a chyfleoedd i rwydweithio gyda chydweithwyr mewn sefydliadau eraill. Mae aelodau o'r staff hefyd yn cymryd rhan mewn panelau dilysu allanol, ac mae nifer o aelodau'r staff yn gweithio fel adolygwyr a/neu wirwyr allanol ac arholwyr allanol.

32 Roedd y staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd oedd ar gael iddynt a sut mae'r rhain yn gwella ac o fudd i brofiad academaidd y myfyrwyr. Mae'r staff hefyd yn cadarnhau bod ceisiadau unigol yn derbyn cefnogaeth lawn yn y broses a bod y polisi rhyddhau wedi hwyluso ymgysylltiad o'r fath yn effeithiol. Siaradodd y myfyrwyr yn hynod o gadarnhaol am ansawdd yr addysgu a'r cymorth a ddarperir iddynt gan y staff, ac adlewyrchwyd hyn yn y canfyddiadau a gafwyd drwy ddulliau amrywiol o gasglu adborth gan fyfyrwyr.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

33 Mae'r Coleg wedi gwella'r cyfleusterau dysgu i fyfyrwyr yn gynyddol drwy ei Ganolfan Addysg Uwch ar gampws Glannau Dyfrdwy a thrwy ddarparu mannau neilltuedig i fyfyrwyr addysg uwch ar bob un o'i safleoedd. Estynnwyd y mannau addysg uwch neilltuedig mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr ac mae'r myfyrwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae cynlluniau pellach i ddatblygu Canolfan Glannau Dyfrdwy.

34 Ceir ystod gynhwysfawr o adnoddau dysgu, cyfleusterau a gwasanaethau arbenigol ar gyfer cynghori a chefnogi myfyrwyr, gan gynnwys y rheiny ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, mae digon o adnoddau da ar gael yn y llyfrgell, gydag amrywiaeth eang o gylchgronau a deunyddiau darllen arbenigol. Yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, cyfeirir y myfyrwyr at y gwasanaethau hyn yn llawlyfrau'r rhaglenni, ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg ac mewn dogfennau unigol. Gall y myfyrwyr gael gafael ar adnoddau ychwanegol hefyd drwy'r corff dyfarnu perthnasol. Mae'r myfyrwyr yn fodlon iawn gyda'r cyfleusterau a'r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.

35 Mae'r llyfrgellwyr yn gweithio'n agos â'r tîm academaidd i ddod o hyd i ddeunyddiau newydd ac i ddarparu cymorth sgiliau academaidd drwy ddatblygu eu deunyddiau eu hunain, yn ogystal â chymorth un-i-un. Ar lefel weithredol, mae effeithiolrwydd yr adnoddau'n cael ei fonitro drwy'r ddarpariaeth a'r rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd, a thrwy brosesau monitro ansawdd y Coleg ei hun ar lefelau'r sefydliad a'r darparwr gwasanaeth, ac mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr. Mae'r prosesau o fonitro rhaglenni'n flynyddol hefyd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fonitro a chanfod adnoddau ychwanegol.

36 Cafwyd sylwadau hynod o gadarnhaol gan y myfyrwyr am y gefnogaeth a roddir iddynt ac ymrwymiad a hygyrchedd staff y gwasanaethau academaidd a'r gwasanaethau myfyrwyr. Yr argraff a gafodd y tîm adolygu o'i gyfarfodydd ag aelodau o'r staff oedd bod y berthynas waith agos ac effeithiol rhwng y gwasanaethau academaidd, y gwasanaethau myfyrwyr a'r gwasanaethau proffesiynol yn hanfodol hefyd i ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol o safon uchel a sicrhau bod yr adnoddau'n parhau'n gyfoes.

37 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Coleg adnoddau dysgu a gwasanaethau myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

38 Mae'r Coleg yn defnyddio nifer fawr o ddulliau i gasglu barn ei fyfyrwyr ac yn rhoi cyfle i'w fyfyrwyr godi pryderon, er enghraifft drwy gynrychiolaeth ar y Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch a thrwy adolygiadau blynyddol a gwerthusiadau o fodiwlau. Cadarnhaodd cyflwyniad y myfyrwyr fod mwyafrif y myfyrwyr wedi cael y dulliau o gasglu barn y myfyrwyr yn ddefnyddiol. Ar ddechrau bob blwyddyn, mae myfyrwyr pob rhaglen yn ethol cynrychiolwyr myfyrwyr, a chytunodd y myfyrwyr bod y system yn gweithio'n dda.

39 Roedd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n fodlon gyda'r canlynol: y cyfleoedd helaeth sydd ar gael iddynt i leisio eu barn; y byddai camau gweithredu'n dilyn; ac y rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am unrhyw newidiadau ynghyd ag enghreifftiau o'r mannau lle mae'r Coleg wedi gwneud gwelliannau mewn ymateb i'w hadborth. Roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y Coleg yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, fel partneriaid yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiadau addysgol.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

40 Disgrifiodd y Coleg ei drefnau cwyno ac apelio'n glir yn y dogfennau a ddarparwyd ganddo cyn yr ymweliad. Roedd pob llawlyfr i fyfyrwyr yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y trefnau cwyno ac apelio, ac mae'r Coleg wedi alinio ei drefnau â pholisïau apeliadau academaidd ei bartneriaid a Pearson. Felly, roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol wedi eu bodloni.

41 Dangosodd yr adolygiad mai ychydig iawn o broblemau / cwynion ffurfiol a godwyd, a bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys yn effeithiol ac anffurfiol fel arfer am fod y dosbarthiadau'n weddol fach. Roedd y staff a'r myfyrwyr yn fodlon bod y trefnau sydd ar waith yn eglur ac yn hygyrch i bob myfyriwr.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

42 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil. Felly, nid yw'r arferion craidd hyn yn berthnasol.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

43 Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth ag amrediad eang o gyrff dyfarnu, ac mae'r Memoranda Cytundeb perthnasol a'r prosesau gweithredol perthnasol yn nodi'r cyfrifoldebau hyn yn glir. Mewn perthynas â dyfarniadau Pearson, mae'r Coleg yn dilyn ei brosesau gweithredol ei hun.

Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod y prosesau hyn yn gweithio'n effeithiol. Mewn perthynas â dyfarniadau a ddilysir gan y prifysgolion, roedd yr arholwyr allanol a'r staff academaidd o'r farn bod y system tiwtoriaid cyswllt yn gweithio'n dda ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd oedd ar gael iddynt i gymryd rhan ym myrddau a phwyllgorau'r prifysgolion, a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu cwricwla a'r gwaith parhaus o fonitro ac adolygu. Yn gyffredinol, siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol am yr ymatebolrwydd i'w hadborth lle'r oedd hyn hefyd yn cynnwys y brifysgol bartner.

44 Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i ddarparu lleoliadau gwaith a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yn rhan o raglenni penodol. Mae rhai rhaglenni dysgu seiliedig ar waith wedi eu llunio hefyd ar gyfer cyflogwr penodol, ac mae cyfleoedd dysgu integredig ar gael i'r myfyrwyr hynny sydd mewn swydd gyflogedig yn barod. Darperir pob lleoliad gwaith a phob cyfle dysgu seiliedig ar waith yn unol â phrosesau'r Coleg ei hun, ochr yn ochr â fframweithiau sicrhau ansawdd y brifysgol bartner berthnasol a/neu'r corff dyfarnu perthnasol, a/neu'r fframwaith dysgu sydd ar waith yn y Coleg. Ymhob achos, mae gan y Coleg gyfrifoldeb llawn am asesiadau. Mae'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth eglur a chynhwysfawr sy'n cyfeirio at ddogfennau neu lawlyfrau rhaglenni'r corff dyfarnu perthnasol, fel y bo'n briodol. Mae gan y myfyrwyr ddealltwriaeth glir am yr hyn a ddisgwylir ganddynt a gyda phwy i gysylltu. Mae'r ystod lawn o wasanaethau cymorth academaidd a bugeiliol y Coleg hefyd ar gael i bob myfyriwr drwy gydol eu dysgu. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y trefniadau'n gweithio'n effeithiol ac yn darparu profiad academaidd priodol o safon uchel.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

45 Mae'r Coleg yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i helpu ei fyfyrwyr i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol. Mae'r gwasanaethau llyfrgell a'r gwasanaethau astudio academaidd yn cefnogi pob dysgwr addysg uwch mewn amrywiol ffyrdd, megis drwy ddarparu tiwtoriaid personol, cymorth llyfrgell, cymorth gydag anghenion dysgu ychwanegol a chymorth gyda sgiliau astudio academaidd.

46 Eleni, cyflwynwyd y cynllun 'Gwerth a Ychwanegwyd' i helpu i dracio cynnydd myfyrwyr wrth iddynt symud drwy eu rhaglenni. Mynegodd y myfyrwyr lefelau cymysg o foddhad / ymgysylltiad a chydnabu'r staff bod gan y cynllun esiamplau o arfer da ond bod ganddo hefyd feysydd sydd angen eu gwella, ac mae'r Coleg yn cydnabod y rhain ac yn gweithio arnynt.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

47 Mae'r Coleg yn dibynnu ar bolisïau a fframweithiau gweithdrefnol ei brifysgolion partner, a ategir gan nifer llai o bolisïau penodol i addysg uwch, ac mae rhai arferion craidd ar gyfer adolygu ansawdd wedi eu sefydlu'n dda o fewn cylch ansawdd sydd hefyd wedi ei sefydlu'n dda. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth, e.e. data am gynnydd a chwblhad academaidd ac adborth gan fyfyrwyr. Mae adroddiadau monitro'r rhaglenni, yr Adroddiad Hunanasesu Addysg Uwch, y Cynlluniau Gwella Ansawdd a'r Cynlluniau Datblygu Ansawdd yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer ysgogi datblygiad a gwelliant. Ceir cyfle yng nghyfarfodydd rheolaidd timau'r rhaglenni i fynd i'r afael â phroblemau wrth iddyn nhw godi, ac mae'r dulliau amrywiol o gasglu adborth gan fyfyrwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi ac ysgogi gwelliant.

48 Mae'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch yn goruchwylio canlyniadau'r prosesau amrywiol o adolygu ansawdd a'r cynlluniau gweithredu a lunnir mewn ymateb iddynt, ac mae'r gwaith o dracio cynlluniau gweithredu manwl yn ysgogi a chefnogi rhagor o welliant.

Mae'r Coleg wedi cydnabod pwysigrwydd datblygu ei bolisïau a'i ganllawiau ymhellach, ac mae cynlluniau o'r fath wedi eu datblygu'n dda'n barod (gwelwch baragraff 19).

### Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

49 Y prif ffynonellau arbenigedd allanol yw cydweithrediad â phrifysgolion partner dilysu drwy'r system tiwtoriaid cyswllt a chyfranogaeth mewn pwyllgorau academaidd - drwy weithio gydag adroddiadau arholwyr allanol ac ymateb iddynt - ynghyd â chyfranogaeth mewn amrywiaeth eang o grwpiau'r sector. Mae cyfranogaeth mewn gweithgareddau arsylwi gan gymheiriaid hefyd yn rhan annatod o'r broses gymeradwyo rhaglenni, ac mae gan rai aelodau o'r staff brofiadau o fod yn aelodau o banelau dilysu allanol. Mae'r staff yn tynnu ar y profiadau hyn i hysbysu eu harferion proffesiynol neu academaidd eu hunain ac maent yn cyfrannu at brosesau rheoli ansawdd y Coleg. Mae'r berthynas waith agos gyda chyflogwyr hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglenni ac yn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r diwydiant.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

50 Roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y Coleg yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, fel partneriaid yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiadau addysgol. Mae'r Coleg yn defnyddio nifer fawr o ddulliau i gasglu barn ei fyfyrwyr ac yn rhoi cyfle i'w fyfyrwyr godi pryderon, er enghraifft drwy gynrychiolaeth ar y Grŵp Llywio Addysg Uwch a thrwy adolygiadau blynyddol a gwerthusiadau o fodiwlau, fel y gwelwyd yng nghyflwyniad y myfyrwyr.

51 Roedd y myfyrwyr yn fodlon gyda'r cyfleoedd helaeth sydd ar gael iddynt i leisio eu barn ac yn fodlon y byddai camau gweithredu dilynol yn digwydd neu y byddent yn cael gwybod am unrhyw newidiadau. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r dystiolaeth i ddangos bod cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi cymryd rhan yn y trefnau sicrhau ansawdd, fel y nodwyd uchod.

## Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

52 Mae gan y Coleg brosesau derbyn sy'n eglur ac yn deg. Mae'r Coleg wrthi'n cydweithio â'r brifysgol bartner berthnasol i fynd i'r afael â rhai problemau a ganfuwyd yn y broses ymgeisio. Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am ansawdd eu rhaglenni, ac mae staff y Coleg yn cydweithio â'u prifysgolion partner i'w galluogi i ddarparu rhaglenni o safon uchel sy'n berthnasol i'r diwydiant. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i bob rhaglen a bod y staff yn meddu ar y cymwysterau priodol. Mae cyfleoedd i'r staff ddatblygu eu harbenigedd ymhellach a chadw eu gwybodaeth yn gyfoes a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r sector ehangach. Darperir lefel uchel o gymorth academaidd a bugeiliol i'r myfyrwyr drwy berthynas agos sy'n gweithio'n effeithiol rhwng y gwasanaethau academaidd, y gwasanaethau myfyrwyr a'r gwasanaethau proffesiynol. Ystyrir sylwadau'r myfyrwyr a gweithredir arnynt, a barn gyffredinol y myfyrwyr oedd eu bod yn fodlon â'u profiad.

## Y feirniadaeth

53 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio. Gallai'r tîm adolygu weld trefniadau derbyn priodol; tystiolaeth sy'n dangos cyfranogaeth effeithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu cyrsiau o safon uchel; staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu addysg o safon uchel, argaeledd y cyfleusterau, yr adnoddau dysgu a'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr priodol; a chamau gweithredu i ymgysylltu â myfyrwyr yn

unigol ac ar y cyd. Mae'r arferion hyn wedi galluogi i'r myfyrwyr lwyddo ym maes addysg uwch ac elwa o'r addysg uwch. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu weld bod y ddarpariaeth yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

54 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

## Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

55 Mae gan y Coleg strwythurau i gefnogi hyrwyddiad y Gymraeg, gan gynnwys Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Gymraeg; Pennaeth Cynhwysiant; a Thîm Sgiliau Cymraeg. Cadarnhaodd y Coleg ei fod yn cefnogi ei fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a gall saith aelod o'r staff addysg uwch addysgu eu rhaglenni yn y Gymraeg.

56 Mae gan y Coleg Strategaeth y Gymraeg sy'n rhoi pwyslais cryf ar gynyddu'r gyfran o ddysgwyr sy'n ennill cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r dysgwyr drwy ei Dîm Sgiliau Cymraeg, gan gynnwys cymorth i wella sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg, sesiynau mentora un-i-un a rhestrau dwyieithog o derminoleg a thermau technegol.

57 Mae cyfleodd ar gael i'r myfyrwyr gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os na fydd unrhyw siaradwr Cymraeg o blith y staff sydd ag arbenigedd priodol yn y maes astudio penodol, mae trefniadau ar waith i gyfieithu gwaith myfyrwyr ac adborth staff, a'r gwaith graddio i'r arholwr allanol. Mae holl bolisïau addysg uwch y Coleg ar gael i'r myfyrwyr yn Gymraeg.

58 Mae adnoddau priodol ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a/neu sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a chefnogir y staff i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg gyda chyrsiau sydd ar gael iddynt yn rhad ac am ddim.

**QAA2776 - R13528 - Gorff 23**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk